# FIDEO DIGIDOL HAWDD AR GYFER DYSGU

*Grŵp E-ddysgu, Mawrth 2019*

## SYNIADAU AR GYFER DEFNYDDIO FIDEO

### DEUNYDDIAU FIDEO SYDD AR GAEL 'ALLAN YNO'

- Clipiau o ffilmiau, etc. sy'n berthnasol i'r pwnc
- Eitemau newyddion
- Deunyddiau iaith dilys
- Cyfweliadau ag arbenigwyr
- Darlithoedd / deunyddiau addysgiadol gan sefydliadau eraill
- Deunydd o sefydliadau proffesiynol
- Clipiau 'Sut i' ar gyfer meddalwedd neu gyfarwyddyd sgiliau eraill
- Clipiau fideo personol a wnaed o ddigwyddiadau neu lefydd arwyddocaol
- Holwch fyfyrwyr i werthuso safbwynt barn a dadlau o blaid neu yn erbyn, gan roi tystiolaeth

### FIDEO A GRËWYD GAN ATHRO

- Sut-i ar gyfer dosbarth ymarferol mewn labordy
- Egluro cysyniadau trothwy
- Chwarae rôl sefyllfa i'r myfyrwyr ei dadansoddi
- Deialog mewn iaith darged ar gyfer dysgu iaith dramor
- Taith Maes rithiol – ewch â myfyrwyr i lefydd na allant fynd iddynt yn rhwydd eu hunain
- Cofnod o waith maes – planhigion, anifeiliaid, daeareg, etc
- Cyfweliad neu ddadl
- Golygfa o ddrama neu berfformiad

### FIDEO A GREWYD GAN FYFYRIWR

- Prosiectau unigol neu grŵp
- Chwarae rôl, dadlau
- Dyddiadur fideo o'u hastudiaethau
- Cyflwyniadau myfyrwyr wedi'u recordio
- Cofnod o waith maes neu waith labordy
- Taith rithiol o amgueddfa
- Cymorth cymheiriaid, e.e. fideo cynefino, cyngor i fyfyrwyr sy'n dechrau
- 'Hysbyseb' a luniwyd gan fyfyrwyr

- Fideo o berfformiad mewn iaith darged

## YSTYRIAETHAU

- Caniatâd
  - Pwy all ei wylio?
  - Am ba hyd fydd yn aros yno?
  - Beth gall y bobl sydd yn y fideo ei wneud os ydynt am ei dynnu oddi yno?
  - Os ydych wedi defnyddio delweddau neu glipiau Creadigol Cyffredin, a ydych wedi nodi'r ffynhonnell yn briodol?
- Hygyrchedd
  - Trawsgrifiad
  - Isdeitlau
  - Darpariaeth ddwyieithog
  - Testun Alt ar gyfer delweddau

Gweler ein tudalen Canllawiau a Dogfennau ar gyfer enghreifftiau o ffurflenni caniatâd.

## AWGRYMIADAU AR GYFER FFILMIO – WEDI'U SEILIO'N RHANNOL AR GYNGOR GAN JISC DIGITAL MEDIA

- Adroddwch stori
- Defnyddiwch drybedd (*tripod*) neu fel arall estynnwch eich braich a'ch corff yn gadarn
- Fframiwch lun pen-ac-ysgwyddau ar gyfer cyfweliadau
- Ystyriwch beth mae'r cefndir yn ei ddweud am eich pwnc. Recordiwch berson o flaen cefndir ystyrlon ac nid cefndir sy'n tynnu sylw
- Lleihewch sŵn y cefndir
- Sylwch ar onglau'r golau a'i addasu i leihau'r cysgodion
- Os dymunwch allolygu eich llais eich hun wedyn, sicrhewch fod y cyfwelai yn ailadrodd digon o wybodaeth i'r gwyliwr ddeall y cyd-destun
- Osgowch gwestiynau ie/na, a holwch gwestiynau ymchwilgar a dilynol
- Caniatewch ychydig o amser ychwanegol ar ddechrau a diwedd ffilmio ('handlenni'), er mwyn ichi allu tocio'r clip yn briodol
- Defnyddiwch sgript / fwrdd stori i gynllunio eich fideo cyn dechrau saethu (gweler yr enghraifft isod)
- Gwiriwch eich bod yn cael sain o ansawdd da, os nad ydych, defnyddiwch feicroffon allanol a rhoi'r meicroffon ar drybedd i osgoi codi sŵn cefndir

## ADNODDAU

I gael rhagor o wybodaeth:

- Ein nodau tudalen gwe ar Trello https://trello.com/b/s3igDCXh/aberystwyth-uni-e-learning-group-bookmarks
- JISC Digital Media https://www.jisc.ac.uk/search/digital%20media?f%5B0%5D=type%3Aguide
- Cysylltwch â ni: elearning@aber.ac.uk

## GWEITHGAREDD GRŴP

- Dewiswch un cwestiwn:
  - Sut byddech chi'n defnyddio camerâu Flip yn eich gwaith?
  - Neu lluniwch eich cwestiwn eich hun
- Cynlluniwch a chreu clip fideo byr i ateb y cwestiwn. Mae tua 2 funud yn hyd addas. Dylai pawb sy'n ymwneud â'r fideo lofnodi'r ffurflen ganiatâd.
- Dychwelwch i'r ystafell hon ar gyfer trafodaeth grŵp. Ar ddiwedd y drafodaeth, cyflwynwch y ffurflenni caniatâd a'r camerâu Flip.

## FFORMAT SGRIPT SAMPL

| Hyd (mewn eiliadau) | Eitem | Elfennau sain | Elfennau gweledol |
|---|---|---|---|
| | Sleid y teitl | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | Sleid y Credydau | | |